**PRIFYSGOL ABERTAWE**

**CYLCH GORCHWYL**
**Y PWYLLGOR CYLLID A STRATEGAETH**

1. *Adrodd*

   Mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn adrodd i'r Cyngor

2. *Amlder Cyfarfodydd*

   Dylai'r Pwyllgor gwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a'r disgwyliad yw y bydd y Pwyllgor yn cwrdd hyd at chwe gwaith y flwyddyn. Gall Cadeirydd y Pwyllgor alw cyfarfodydd arbennig. Bydd y Pwyllgor yn defnyddio cyfleusterau e-bost neu ffôn/fideo-gynadledda fel y bo'n briodol i ymgymryd â'i fusnes yn effeithiol.

3. *Cyfansoddiad*

   Dylai aelodaeth y Pwyllgor gynnwys:
   - Y Trysorydd (Cadeirydd);
   - Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor;
   - Yr Is-ganghellor
   - Tri aelod lleyg o'r Cyngor;
   - Hyd at dri aelod lleyg a gyfetholwyd;
   - Aelod o staff o'r Cyngor;
   - Aelod myfyriwr o'r Cyngor.

   Gellir cyfethol aelodau ychwanegol ag arbenigedd penodol drwy argymhelliad i'r Cyngor drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau.

   Nid yw aelodau cyfetholedig yn aelodau o'r Cyngor, ac felly nid ydynt yn aelodau o Ymddiriedolwyr y Brifysgol. Fodd bynnag, maent yn aelodau llawn o'r Pwyllgor y cawsant eu cyfethol iddo, ac maent yn gwneud cyfraniad allweddol at fusnes y pwyllgor.

   Mae aelodau cyfetholedig o is-bwyllgorau'r Cyngor yn aelodau lleyg annibynnol a benodir i gynnig cyngor a mewnbwn arbenigol i fusnes yr is-bwyllgorau. Diben deiliaid y rôl yw darparu cyngor arbenigol ychwanegol o fewn fframwaith llywodraethu'r Brifysgol, heb gynyddu aelodau lleyg y Cyngor.

   Ni chaiff unrhyw aelod o'r Pwyllgor Cyllid fod yn aelod hefyd o'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg.

   Ni ddylai fod gan Aelodau Lleyg o'r Pwyllgor fuddiannau ariannol o bwys yn y Brifysgol.

   Dylid rhoi 'sylw dyladwy ' i ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.

4. *Gohebiaeth Freintiedig ag Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau'r Cyngor*

Mae braint yn caniatáu i unigolion ac endidau wrthod datgelu deunydd cyfrinachol yng nghyd-destun cyngor cyfreithiol, cymrodeddu, cyfreithia ac ymchwiliadau. Gall braint fod yn berthnasol i gyngor cyfreithiol a materion cyfreithia, ac mae'n cynnwys trafodaethau, penderfyniadau, cyfarwyddiadau a derbyn cyngor cyfreithiol (ysgrifenedig ac ar lafar). Ceir rheolau llym ynghylch pryd mae braint yn berthnasol, a gellir colli braint drwy ddosbarthu deunydd breintiedig heb fesurau diogelu digonol.

Rhagwelir y bydd rhaid i holl aelodau pwyllgorau ac is-bwyllgorau, yn ystod tymor eu penodiad, ymwneud â gohebiaeth/gwybodaeth freintiedig, a rhaid iddynt weithredu yn unol â Chôd Ymarfer Cyngor y Brifysgol ar gyfer Aelodau a'r Rheoliadau ar gyfer Cynnal Cyfarfodydd mewn perthynas â materion o'r fath.

*5.* *Cynnal Cyfarfodydd*

*Cynhelir cyfarfodydd yn unol ag arfer gorau fel y nodir yn Rheoliadau'r Brifysgol at gyfer Cynnal Cyfarfodydd.*

*6.* *Tymhorau Penodiad*

Penodir aelodau am bedair blynedd yn y lle cyntaf, a gellir estyn penodiad am ail dymor, heb fod yn hwy na phedair blynedd.

*7.* *Presenoldeb*

Fel arfer, dylai'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, y Profost a'r Prif Swyddog Ariannol fod yn bresennol ym mhob cyfarfod.

Gall y Cadeirydd, yn ôl ei ddoethineb, wahodd swyddogion eraill yn y Brifysgol, fel y bo'n briodol, i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd. Dylai'r Ysgrifennydd i'r Cyngor, neu ddirprwy priodol, weithredu fel ysgrifennydd i'r pwyllgor.

*8.* *Cworwm*

Bydd pedwar aelod o'r Pwyllgor yn ddigon i gael cworwm, ar yr amod y ceir mwyafrif o aelodau lleyg.

*9.* *Diben*

Diben y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yw monitro iechyd ariannol y Brifysgol ar ran y Cyngor.

*10.* *Cylch Gorchwyl*

Dyletswyddau'r Pwyllgor fydd:

1. Ystyried ac **argymell** i'r Cyngor:
   (i) strategaeth Ariannol y Brifysgol;
   (ii) goblygiadau ariannol Cynllun Strategol y Brifysgol;
   (iii) y Strategaeth Ystadau a bod trefniadau digonol ar waith i reoli ystad y Brifysgol er mwyn cyflawni amcanion y Brifysgol;

- (iv) paratoi Datganiadau Ariannol blynyddol y Brifysgol, gan gynnwys sicrhau'r Cyngor bod y Brifysgol yn bodloni'r amodau cyllido a bennir gan reoleiddwyr, cyrff cyllido a chyllidwyr sefydliadol mawr eraill a gwneud argymhellion i'r Cyngor i'w cymeradwyo;
- (v) adolygu perfformiad, datganiadau a chyfrifon ariannol is-gwmnïau'r Brifysgol neu gwmnïau/endidau eraill y mae gan y Brifysgol ddaliad ecwiti uniongyrchol, neu fudd arall neu rôl reoli ynddynt, i'w hystyried mewn perthynas â chymeradwyo Datganiadau Ariannol blynyddol y Brifysgol;
- (vi) y rhagolygon ariannol blynyddol a thymor canolig i hir, gan gynnwys y tybiaethau ariannol sylfaenol, amcangyfrifon o incwm a gwariant, a chyllidebau (cyfalaf a refeniw) a dyraniad cyllid ar gyfer buddsoddiad strategol;
- (vii) trefniadau benthyca newydd a diwygiedig ac unrhyw ddarpariaethau sicrwydd cysylltiedig;
- (viii) asesiadau a dichonoldeb ariannol mewn perthynas ag unrhyw brosiectau mawr sydd â goblygiadau cyllidebol neu strategol o bwys (cyfalaf neu refeniw);
- (ix) gwariant, buddsoddiadau, trefniadau llety myfyrwyr a chontractau trydydd parti yn unol â Chynllun Dirprwyo Ariannol y Brifysgol;
- (x) goblygiadau ariannol pob cynllun pensiwn sy'n cael ei gynnig gan y Brifysgol fel cyflogwr yn unol â Chynllun Dirprwyo Ariannol y Brifysgol a gwneud argymhellion ar gyfer penodi Ymddiriedolwyr i Gynlluniau Pensiwn gweithredol;
- (xi) gwerthu, prynu, cyfnewid prydlesu a derbyn prydlesi eiddo, gan gynnwys argymhellion i'r Cyngor ynghylch y trefniadau ariannol i werthu neu gaffael eiddo neu dir gan gynnwys prydlesi â rhwymedigaeth (rhwymedigaeth mewn perthynas â gwerth ariannol yn unig) am oes yr ymrwymiad (dylid cyfeirio at y Gofrestr Ddirprwyo am derfynau gwerth);
- (xii) unrhyw benderfyniadau sy'n ofynnol mewn perthynas â rôl y Cyngor fel ymddiriedolwyr ar gyfer eiddo, cymynrodd, gwaddol, becwêdd neu rodd i'r Brifysgol;
- (xiii) Cynllun Dirprwyo Ariannol y Brifysgol i lywodraethu a rheoleiddio cyllid, cyfrifon, buddsoddiadau, eiddo, busnes a materion y Brifysgol;
- (xiv) sefydlu cwmnïau cysylltiedig ac is-gwmnïau y perchnogir arnynt yn llwyr, gan sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith at ddiben llywodraethu a rheoli risg;
- (xv) penodi bancwyr, rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr ariannol y Brifysgol, yn ôl yr angen, i lywodraethu a rheoleiddio cyllid, cyfrifon, buddsoddiadau, eiddo, busnes a materion y Brifysgol (heblaw am archwilwyr);
- (xvi) unrhyw faterion eraill a nodir yn y Rheoliadau Ariannol

2. Ystyried a **chymeradwyo:**
   - (i) y Rheoliadau a'r Polisïau Ariannol sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor i sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu system gadarn o reolaeth ariannol fewnol;
   - (ii) yr adroddiad blynyddol ar Ymagwedd Dryloyw at Gostio a Phrisio (TRAC);

(iii) buddsoddiadau mewn is-gwmnïau, yn unol â'r trothwyau a bennir yng Nghynllun Dirprwyo Ariannol y Brifysgol;
(iv) dileu dyledion drwg yn unol â'r trothwyau a nodir yng Nghynllun Dirprwyo Ariannol y Brifysgol;
(v) sefydlu a dirymu is-bwyllgorau neu grwpiau tasg a gorffen y mae'r Pwyllgor yn tybio eu bod yn briodol ac yn angenrheidiol a derbyn adroddiadau gan y cyfryw gyrff.

3. Monitro perfformiad a chydymffurfiaeth, derbyn gwybodaeth am y materion isod a chynghori'r Cyngor arnynt yn ôl yr angen:
   (i) sefyllfa ariannol y Brifysgol;
   (ii) cynaliadwyedd tymor canolig a hir y Brifysgol;
   (iii) dangosyddion perfformiad allweddol a metrigau eraill i fonitro perfformiad ariannol a sefydliadol Cynllun Strategol y Brifysgol a strategaethau perthnasol eraill;
   (iv) cydymffurfiaeth â'r rheoliadau ariannol ac â'r Memorandwm Ariannol a rhoi camau unioni ar waith yn ôl yr angen;
   (v) cyflawni'r strategaeth ystadau
   (vi) cynlluniau ariannol gan is-gwmnïau;
   (vii) atebolrwydd Undeb y Myfyrwyr am ei gyllid a'i fod yn gweithredu mewn modd sy'n gynaliadwy'n ariannol;
   (viii) Cofrestr Risg y Brifysgol i'r graddau y mae'r risgiau'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor;
   (ix) perfformiad buddsoddiadau ariannol.

*Dyddiad Adolygu Diwethaf: Cymeradwywyd gan y Cyngor ar 29 Tachwedd 2021*
*Adolygwyd gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth: 11 Hydref 2022*
*Cymeradwywyd gan y Cyngor: 28 Tachwedd 2022*
*Diwygiadau wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor: 27 Mawrth 2023*
*Dyddiad Adolygu Nesaf: Tachwedd 2023*
*Cymeradwywyd gan y Cyngor: 9 Hydref 2023.*